Adnoddau Athrawon

Yn ogystal â'r gweithdai a gyflwynir gan y staff addysg mae'r Amgueddfa yn cynnig amrywiaeth o gyfleon dysgu. Lawrlwythwch ein canllaw sy'n cynnwys gwybodaeth i baratoi eich disgyblion ar gyfer eu hymweliad, rhai strategaethau dysgu i'w defnyddio yn yr Amgueddfa a syniadau i'w datblygu yn y dosbarth.

Disgyblion iau

Paratoi ar gyfer ymweliad

Gall y gweithgareddau canlynol helpu'ch dosbarth i baratoi ar gyfer yr ymweliad:

Trafodwch y canlynol:

- Beth yw amgueddfa?
- Beth sydd mewn amgueddfeydd? (Gwrthrychau yn unig? Hen wrthrychau yn unig?)
- Pa benderfyniadau sy'n rhaid i'r bobol yng ngofal amgueddfeydd eu gwneud? (Meddyliwch am beth i'w arddangos, sut i'w harddangos, y siop, y caffi…)
- Pwy sy'n berchen y gwrthrychau? (Mewn amgueddfa genedlaethol fel hon, yr ateb yw 'pob un ohonon ni'!)
- Pam fod gwrthrychau yn cael eu cadw mewn amgueddfeydd?
- Beth fyddwn ni'n ei weld? (Yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd rydyn ni'n casglu gwrthrychau celf, archaeoleg, daeareg a hanes natur.)
- Beth hoffech chi ei ddysgu?
- Ewch ar rith-ymweliad – dangoswch luniau o'r amgueddfa i'r disgyblion.
- Cymharwch yr adeilad ag adeiladau mawr eraill y maen nhw'n gyfarwydd â nhw, fel eu hysgol, llyfrgell leol, bloc fflatiau neu archfarchnad.
- Cyflwynwch eiriau newydd i'r disgyblion – gwrthrychau,



casgliadau, arddangosiadau, orielau. Bydd lluniau o'r tu mewn i'r amgueddfa yn help gyda hyn. Dangoswch gardiau post a lluniau o wrthrychau amgueddfa eraill er mwyn iddyn nhw ymgyfarwyddo a'r hyn y byddant yn ei weld.

- Crëwch gasgliad o wrthrychau diddorol ac ymarfer siarad amdanyn nhw gan ofyn cwestiynau am eu maint, siâp, gwead, lliw, addurn, deunydd, swyddogaeth ac ati.
- Crëwch lyfr 'mi wela i...' gan ddefnyddio delweddau o'n gwefan wedi'u hargraffu. Rhowch her i'r disgyblion sylwi ar gynifer o'r gwrthrychau â phosibl yn ystod yr ymweliad.



Yn yr Amgueddfa



- Rhowch gynnig ar ddefnyddio propiau – fflachlampau, chwyddwydrau, drychau neu hetiau a gofynnwch i'ch dosbarth fod yn anturwyr.
- Treuliwch beth amser ar ddechrau'r ymweliad yn helpu'r disgyblion i ddod yn gyfarwydd ag edrych ar arddangosiadau. Mae plant



bach yn aml yn sefyll yn agos iawn at y gwrthrychau, ac weithiau nid dyma'r ffordd orau i'w gweld.

- Siaradwch am beth allan nhw ei weld. Disgrifiwch rai gwrthrychau iddyn nhw eu hadnabod mewn gêm tebyg i 'mi wela i...' (e.e. Galla i weld rhywbeth sy'n oren, blewog a gyda chynffon fawr. Beth yw e?).
- Gofynnwch beth yw'r peth lleiaf/mwyaf y gall y disgyblion ei weld.
- Defnyddiwch gemau cyfri yn yr orielau/ arddangosfeydd.
- Rhowch gamerâu digidol i'r disgyblion a gofyn iddyn nhw dynnu ffotograffau o'r eitemau mwyaf diddorol.
- Torrwch ffenestri ffotograffig (viewfinders) o gerdyn i helpu'r disgyblion archwilio.



- Dewch ag offer tynnu lluniau gyda chi a gadael i'r plant dynnu lluniau'r gwrthrychau.
- Dechreuwch adrodd stori ffuglen wedi'i lleoli yn yr Amgueddfa. Gofynnwch i'r dosbarth am syniadau er mwyn casglu'r stori gyfan wedi dychwelyd i'r ysgol. Defnyddiwch batrwm llyfr cyfarwydd fel ysbrydoliaeth, fel 'Funny Bones' neu 'Harry and the Dinosaurs'.
- Bydd gan y disgyblion ddiddordeb mawr yn adeilad yr Amgueddfa felly gallwch chi roi cyfle strwythuredig iddyn nhw ei archwilio.
- Gofynnwch i'r disgyblion beth maen nhw'n ei hoffi am bob gofod newydd y byddwch yn camu iddo.
- Anogwch y disgyblion i symud mewn ffyrdd gwahanol ar loriau gwahanol e.e. ar flaenau traed ar y teils, stompio yn oriel y deinosoriaid.

Yn yr Ysgol

- Rhowch gyfle i'r disgyblion siarad am eu profiadau yn yr Amgueddfa. Gadewch iddyn nhw gyfleu yr hyn a daniodd eu dychymyg drwy ddarluniau, paentiadau, modelau a chwarae dychmygol.
- Heriwch y disgyblion i adeiladu amgueddfa neu oriel gyda blociau adeiladu a defnyddio ffigurau model fel ymwelwyr. Gallwch chi droi ardal 'chwarae rôl' yr oriel yn amgueddfa.
- Defnyddiwch ein gwefan i helpu'r disgyblion i ddysgu mwy am ein casgliadau.
- Crëwch lyfr lloffion o'ch ymweliad:
  - lluniau o'r dosbarth yn yr Amgueddfa
  - atgofion y disgyblion
  - anfon cardiau post atgofion i rieni/ gwarcheidwaid
  - arddangos ffotograffau a dynnwyd yn ystod yr ymweliad ar dudalen y dosbarth ar wefan yr ysgol.
- Gofynnwch i'r dosbarth baratoi cyflwyniad am eu hymweliad a'i gyflwyno i ddisgyblion eraill yn ystod gwers neu wasanaeth ysgol.
- Fel gwaith cartref, gofynnwch i'r disgyblion adrodd hanes yr ymweliad wrth rywun adref.
- Crëwch amgueddfa ddosbarth
- Crëwch lyfr gwybodaeth am yr amgueddfa – gall y disgyblion ysgrifennu eu labeli eu hunain am eu hoff wrthrychau amgueddfa.
- Crëwch flychau ar gyfer 'pethau gwerthfawr' a'u haddurno.